



## CABINET

### COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER 13EG MEHEFIN 2018 AM 2.00 P.M.

---

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd S. Morgan - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C.J. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol), P. Marsden (Addysg a Chyrhaeddiad), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), K. Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol), A. Cullinane (Uwch Swyddog Polisi - Cydraddoldeb a'r Gymraeg), J. Morgan (Rheolwr Safonau Masnach, Trwyddedu a Chofrestryddion) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

#### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr B.A. Jones (Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu) a D.V. Poole (Arweinydd y Cyngor).

#### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cyngorydd N. George (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth) ddiddordeb personol a rhagfarnol ar ddechrau'r cyfarfod mewn perthynas ag eitem agenda 7 - (Rhisga - Cytundeb Adran 106 Datblygu Tesco: Ymrwymiad o Cyllid). Mae manylion ohonynt yn cael eu cofnodi gyda'r eitemau perthnasol.

#### 3. COFNODION Y CABINET - 30AIN MAI 2018

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 30ain Mai 2018 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## **MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

### **4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET**

Cynghorwyd y Cabinet, ers cyhoeddi'r adroddiad, bod sawl newid wedi'i wneud i'r Flaenraglen Waith. Gofynnwyd i'r Aelodau ohirio'r Adroddiad nes bydd cyfarfod nesaf y Cabinet ar gyfer y Rhaglen yn cael ei ddiweddarau.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr Adroddiad yn cael ei ohirio. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD gohirio'r Adroddiad i gyfarfod nesaf y Cabinet gan fod nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r Flaenraglen Waith ers cyhoeddi'r Adroddiad.

### **5. ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFNOAU'R GYMRAEG 2017-2018 ADRODDIAD CYNNYDD BLYNYDDOL AR STRATEGAETH Y GYMRAEG 2017-2022**

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet o'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol 2017-2018 yn erbyn pedair maes penodol o waith Cymraeg, fel sy'n ofynnol o dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gweithredu Safonau'r Gymraeg. Bydd yr adroddiad wedyn yn cael ei gyhoeddi ar-lein erbyn y dyddiad cau ar 30ain Mehefin 2018, fel sy'n ofynnol gan Safon 158 y Gymraeg. Nodwyd Strategaeth Bum Mlynedd y Gymraeg 2017-2022 yn Adroddiad y Swyddog.

Cynghorodd y Cabinet bod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar weithredu materion y Gymraeg o dan y ddeddfwriaeth gyfredol. Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer 2017-2018 yn cwmpasu pedair maes allweddol sy'n cynnwys Cwynion gan y Cyhoedd, Sgiliau Iaith Staff, Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraega Recriwtio ar gyfer Swyddi Gwag.

Eglurwyd bod y Cyngor wedi derbyn pedwar cwyn ffurfiol a phedwar Ymchwiliad ffurfiol Comisiynydd y Gymraeg. O'r pedwar cwyn ffurfiol, daeth dau o'r rhain yn destun Ymchwiliadau gan Gomisiynydd y Gymraeg. Ymatebwyd i'r holl gwynion o fewn terfynau amser corfforaethol a chawsant eu cadarnhau. Hysbyswyd yr Aelodau bod y prosesau wedi gwella o ran y ddau gwyn a ddaeth yn Ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg, ac mae'r Tîm wedi sicrhau bod y testun ar wefan y Cyngor yn ddwyieithog.

Nododd y Cabinet fod cynnydd bychan yn nifer y staff yn dysgu Cymraeg gyda ffigur o 74, yn rhannol oherwydd cyflwyno'r cyrsiau blasu mewnol 10 wythnos a gyflwynwyd gan y Swyddog Hyfforddiant a Hyrwyddo Cydraddoldeb. Mae darparu cyrsiau wedi canolbwyntio'n fwyaf ar wasanaethau rheng flaen, yn enwedig y derbynfeydd a restrir dan Safonau 65 a 65A, a fydd yn cael eu gweithredu o 30ain Medi 2018. Darparwyd trosolwg o ran swyddi gwag a hysbysebwyd a oedd yn cynnwys Asesiad Sgiliau'r Gymraeg. Cadarnhawyd bod Pennaeth Gwasanaethau Pobl wedi cytuno na fydd swyddi newydd a swyddi gwag yn cael eu hysbysebu mwyach heb Asesiad Sgiliau'r Gymraeg angenrheidiol. Bydd y Canllawiau Recriwtio a Dethol ar gyfer Rheolwyr hefyd yn cael ei ddiweddarau gan roi mwy o eglurder ynghylch cynnal Asesiadau Sgiliau'r Gymraeg i benderfynu a ddylid diffinio swyddi newydd a swyddi gwag fel Cymraeg Hanfodol neu fel arall.

Cyfeiriwyd at yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar Strategaeth y Gymraeg 2017-2022 (ynghlwm wrth yr Adroddiad). Atgoffwyd y Cabinet fod y Strategaeth wedi cael ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn ym mis Ionawr 2017 gyda chais y Cabinet am adroddiad cynnydd blynyddol ar ei 6 Ardal Strategol.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi bod Fforwm y Gymraeg wedi sicrhau cyllid i ddatblygu llyfryn ar sut i fod yn ddwyieithog, gan roi taith o enedigaeth ar ba opsiynau sydd ar gael i gael mynediad i ofal plant cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ysgolion i godi plant dwyieithog. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch yr amserlen ar gyfer cwblhau'r llyfryn a rhagwelir y bydd hyn yn cael ei ddatblygu mewn pryd ar gyfer Medi 2018, ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol am y rhesymau a gynhwyswyd yn Adroddiad y Swyddogion, a chymeradwyo cyhoeddi'r wybodaeth hon fel cofnod o gynnydd tuag at, a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg perthnasol.

## **6. PENODI DADANSODDWR CYHOEDDUS AC AMAETHYDDOL**

Gyfynodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet am ddiwygiadau i benodi Dadansoddwyr Cyhoeddus ac Amaethyddol a nodir ym mharagraff 4.3. o adroddiad y Swyddog.

Cynghorwyd y Cabinet bod dyletswydd statudol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i orfodi Deddf Diogelwch Bwyd 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod benodi Dadansoddwr Cyhoeddus i ddadansoddi bwyd ar gyfer cyrff tramor a dibenion cyfansoddiadol a labelu. Mae darpariaethau tebyg yn Neddf Amaethyddiaeth 1970 yn ymwneud â'r angen i benodi Dadansoddwr Amaethyddol. Pwrpas yr Adroddiad oedd yr angen am gymeradwyaeth ar gyfer nifer o ddiwygiadau i'r rhestr o Ddadansoddwyr Cyhoeddus a Dadansoddwyr Amaethyddol cymeradwy oherwydd newidiadau personél a lleoliad yn y Gwasanaethau Dadansoddwyr.

Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â'r term 'Dadansoddwyr Cyhoeddus' ac a oedd nifer benodol o samplau y mae angen eu cyflawni bob blwyddyn. O ran safonau bwyd, eglurwyd bod yn rhaid i'r Awdurdod Lleol benodi a defnyddio Dadansoddwr Cyhoeddus yn unig ar gyfer samplu cynhyrchion bwyd yn ffurfiol a fyddai'n darparu ardystiad i'w ddefnyddio mewn unrhyw erlyniad neu gamau ffurfiol.

Hysbyswyd y Cabinet nad oes nifer penodol o samplau sy'n ofynnol ond bod gan Safonau Masnach Gynllun Bwyd a Rhaglen Waith flynyddol sy'n cynnwys samplu lleol a chenedlaethol. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar alergenau bwyd, atchwanegiadau diet, atchwanegiadau maeth a rhywogaethau cig ac ati.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir, i gymeradwyo'r Dadansoddwyr Cyhoeddus ac Amaethyddol fel y manylir ym mharagraff 4.3 o Adroddiad y Swyddog.

## 7. RHISGA - CYTUNDEB ADRAN 106 DATBLYGU TESCO: YMRWYMIAD O GYLLID

Datganodd y Cynghorydd N. George ddiddordeb personol a rhagfarnol mewn perthynas â'r eitem hon gan ei fod yn Aelod Ward lleol. Gadawodd yr ystafell pan gyflwynwyd yr Adroddiad ac ni chymerodd ran yn y ddadl.

Gofynnodd yr Adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i'r prosiectau blaenoriaeth i'w gweithredu yn Rhisga, gan ddefnyddio cyllid Adran 106 (A?106) sy'n deillio o ddatblygiad mawr siop Tesco. Roedd yr Adroddiad hefyd yn ceisio cytundeb i broses gymeradwyo dirprwyedig ar gyfer prosiectau Canol Tref ychwanegol posibl a fyddai'n defnyddio'r cyllid A106 gweddilliol sy'n bodoli ar ôl cwblhau'r prosiectau blaenoriaeth.

Atgoffwyd y Cabinet o'r sefyllfa gyfreithiol gydag arian Adran 106 ac yn nodi prosiectau blaenoriaeth yng Nghanolfan Tref Rhisga yn dilyn cytundeb y Cabinet ar 25ain Tachwedd 2015:

- (i) i ddefnyddio arian Adran 106 datblygiad siop Tesco ar gyfer gwelliannau i Ganol Tref Rhisga;
- (ii) y dylid ymgynghori â'r Aelodau Ward a chyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet ar y cynigion.

Eglurwyd bod Swyddogion wedi nodi cynlluniau blaenoriaeth yn hen bwl nofio Longbridge ac ar safle Heol-tir-y-nant y Cyngor sy'n cynnig y cyfle gorau i ddefnyddio arian A106. Nodwyd manylion y prosiectau blaenoriaeth arfaethedig a'r costau cysylltiedig posibl yn yr Adroddiad. Yn ogystal, penderfynodd y Cabinet ym mis Ionawr 2008 i ddymchwel stoc yn Tir-y-nant ac mae'n amlinellu sut y gellir cyflawni'r amcan hwn orau.

Crynhowyd cefndir adeiladu Uwchfarchnad Tesco yn Rhisga a chynghorwyd y Cabinet fod y cytundeb A106 wedi dyrannu swm Cysylltiedig â'r Mynegai o £425,000 mewn perthynas â "Cyfraniad Canol y Dref". Talwyd y swm i'r Cyngor ac mae'n amodol ar yr angen i wario neu ymrwymo'r arian o fewn cyfnod o wyth mlynedd (hyd fis Mawrth 2018) neu i ddychwelyd yr arian i'r datblygwr, Tesco.

Cyfeiriwyd y Cabinet at baragraff 4.3 yn yr Adroddiad sy'n nodi geiriad Cytundeb A106 mewn perthynas â 'Chyfraniad Canol y Dref'. Gwerth yr arian A106 ar 22 Mai 2018 ynghyd â llog cronedig yw £478,164. Mae'r angen i ymrwymo'r arian hwn i gontractau gwaith neu ddymchwel erbyn Mawrth 2018 (8 mlynedd o ddyddiad y cytundeb A106 gwreiddiol) bellach wedi'i ddileu gyda chytundeb â Tesco.

Trafododd y Cabinet y safleoedd arfaethedig ac esboniwyd bod Gwasanaethau Eiddo wedi cynnal Ymgynghoriad â meysydd Gwasanaeth mewn perthynas â'r cynigion i ddymchwel y garej fach, yr hen Lyfrgell, y bloc campfa a'r Uned Sgiliau Sylfaenol a ddaeth i ben ar 20 Ebrill 2018. Yn dilyn cylchrediad yr ohebiaeth e-bost, ni chofrestrwyd unrhyw ddiddordeb ardal gwasanaeth yn erbyn unrhyw un o'r adeiladau a gynigir i'w dymchwel.

Mae Aelodau Dwyrain Rhisga'n gefnogol i'r cynigion tra bod Cyngor Tref Risca ac Aelodau Ward Gorllewin Rhisga wedi mynegi pryderon ynghylch y gwaith arfaethedig. Cafodd y pryderon a'r ymatebion a dderbyniwyd gan y Cyngor eu crynhoi yn yr Adroddiad. O ran unrhyw arian gweddilliol sy'n weddill, esboniwyd y

bydd hyn yn cael ei ddefnyddio wrth weithio drwy Brosiectau Canol Tref. Gofynnodd y Cabinet y dylid ystyried gwaith sy'n cael ei wneud ar wal y perimedr yn safle Coffa'r Rhyfel ar Heol Cromwell, ym mhen gogleddol Risca.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch dyfodol yr Adeilad Gwasanaethau Ieuenctid a Chymunedol. Eglurwyd nad yw hyn yn rhan o'r adroddiad hwn ar hyn o bryd a bydd yn aros yn ei le tra bod y ddarpariaeth gwasanaeth yn cael ei hadolygu. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a fydd yn rhan o Adolygiad y Gwasanaeth Ieuenctid. Cadarnhawyd hefyd fod yna 2 Glwb Ieuenctid lleol yn yr ardal, un yn Crosskeys ac un yn Rhisga ac fe'u defnyddir yn aml. Gofynnodd y Cabinet y dylid gwneud gwelliant i baragraff 10.2, yn Adroddiad y Swyddog i gynnwys Aelod(au) Cabinet perthnasol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth ac yn dibynnu ar yr uchod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar welliant i baragraff 10.2. yn Adroddiad y Swyddog, i gynnwys Aelodau(au) Cabinet perthnasol, dylid defnyddio arian Datblygiad Tesco A106 i: -

- (i) cymeradwyo'r gwaith o ddymchwel bwll nofio Longbridge yn rhannol ac ail-gyflunio? ac ailwampio'r ddwy ystafell newid sy'n weddill;
- (ii) dymchwel yr hen Lyfrgell, y garei fach, yr hen Gampfa a'r Adeilad Sgiliau Sylfaenol (pan ddaw'n wag) ar Heol-tir-y-nant;
- (iii) defnyddir unrhyw arian gweddilliol sy'n weddill o gwblhau'r cynlluniau uchod ar brosiectau amgylcheddol ychwanegol yng Nghanol y Dref; gyda'r prosiectau ychwanegol sydd i'w cymeradwyo gan y Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr perthnasol mewn Ymgynghoriad â'r Aelod (au) Cabinet perthnasol.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.25 p.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 27ain Mehefin, 2018.

---

CADEIRYDD